# Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2022–2037 – Y Strategaeth a Ffefrir

## Ionawr 2024


Cafodd y ddogfen yma ei hysgrifennu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Dyma fersiwn hawdd ei darllen o **‘Gynllun Datblygu Lleol Diwygiedig 2022–2037 – Y Strategaeth a Ffefrir – Ionawr 2024’.**

# Cyflwyniad

Mae'r ddogfen yma'n ymwneud â'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig. Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn dangos sut rydyn ni'n bwriadu tyfu ein cymunedau ledled Rhondda Cynon Taf dros y 15 mlynedd nesaf.




Rydyn ni eisiau gwybod eich barn chi a hoffen ni i chi gymryd rhan ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig.



Efallai y bydd angen cymorth arnoch chi i ddarllen a deall y ddogfen yma. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.


RHONDDA CYNON TAF

Pan mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hynny'n golygu **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.**

# Beth yw'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig?



Mae rhaid i bob Cyngor yng Nghymru ysgrifennu **Cynllun Datblygu Lleol** er mwyn llywio ble mae pethau'n cael eu hadeiladu yn yr ardal.




Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf wrthi'n ysgrifennu Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig ar gyfer 2022-2037.

Mae'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn nodi Strategaeth sy'n esbonio faint y bydd angen i'n cymunedau dyfu dros y 15 mlynedd nesaf, a hynny er mwyn darparu ar gyfer trigolion RhCT.

Bydd hefyd yn nodi tir i'w ddatblygu yn y dyfodol er mwyn diwallu anghenion cymunedau'r dyfodol e.e. adeiladu tai, ystadau diwydiannol, canol trefi, trafnidiaeth gyhoeddus, ac ati.

Bydd yn cynnwys polisïau fydd yn cael eu defnyddio i wneud penderfyniadau ynghylch ceisiadau cynllunio.

Mae ysgrifennu'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yn broses cam wrth gam. Rydyn ni bellach wedi cyrraedd cam Strategaeth a Ffefrir cynnar y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig.



Rydyn ni nawr yn gofyn i chi ein helpu ni i wneud rhai penderfyniadau am y Strategaeth a Ffefrir.


## Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir?

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn disgrifio sut le rydyn ni eisiau i Rondda Cynon Taf fod erbyn 2037.




Mae'n nodi materion y mae RhCT yn eu hwynebu ac amcanion y Cyngor. Mae hefyd yn cynnig Strategaeth yn seiliedig ar wybodaeth am bobl, tai a chyflogaeth (cymunedau).

Mae'n cynnig **ble** y dylai ein cymunedau dyfu ledled RhCT a **faint** y dylen nhw dyfu.




Nid fersiwn derfynol o'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig yw'r Strategaeth a Ffefrir. Dydy'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig ddim yn cynnwys yr holl bolisïau terfynol na lleoliad tir ar gyfer adeiladau newydd. Bydd yr wybodaeth yma'n cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach yn y broses.

# Y Weledigaeth

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn disgrifio sut le rydyn ni eisiau i Rondda Cynon Taf fod yn 2037.



Mae'n dangos sut y bydd twf yn helpu i wneud RhCT yn lle cynaliadwy, lle mae pobl eisiau byw, gweithio ac ymweld â fe.

**Erbyn 2037 rydyn ni eisiau i Rondda Cynon Taf fod yn:**

- **Ardal sydd â chymunedau cynaliadwy, cydlynol sy'n iach, wedi'u cysylltu'n dda ac sydd â mynediad cyfartal i gartrefi, swyddi, gwasanaethau a chyfleusterau o ansawdd uchel.**
- **Ardal sy'n fwy cydnerth ac ystyriol i'r heriau yn ymwneud â newid yn yr hinsawdd, gyda bioamrywiaeth a mannau gwyrdd wedi'u diogelu a'u gwella a system drafnidiaeth gynaliadwy sydd â chysylltiadau da.**
- **Ardal ag economi amrywiol ac iach, a gefnogir gan sector twristiaeth lewyrchus. Rhondda Cynon Taf sy'n dathlu ei threftadaeth ac sy'n wydn ar gyfer y dyfodol.**

Cynaliadwy: Lle y mae pobl yn gofalu amdano er mwyn sicrhau bod modd iddyn nhw ei fwynhau yn y dyfodol.

# Yr Amcanion

**Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn ceisio gwneud y canlynol:**



- Lliniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd a lleihau perygl llifogydd.



- Darparu nifer a chymysgedd priodol o dai i ddiwallu anghenion lleol.



- Annog ffyrdd iach a diogel o fyw sy'n hybu lles ac yn gwella lefelau iechyd cyffredinol yn RhCT.



- Lleihau'r angen i deithio a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy.



- Hyrwyddo, gwarchod a gwella treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig.



- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg.



- Gwarchod a gwella ansawdd a chymeriad y dirwedd.



- Gwarchod a gwella bioamrywiaeth.



- Diogelu ansawdd a nifer yr adnoddau dŵr yn RhCT.

- Parhau i leihau’r gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu a hyrwyddo dulliau rheoli gwastraff mwy cynaliadwy.



- Darparu ar gyfer economi gynaliadwy.

- Darparu ar gyfer ystod amrywiol o swyddi.



- Hyrwyddo Canol Trefi bywiog, hyblyg a chydnerth.



- Mynd i'r afael ag effaith etifeddiaeth y diwydiant glo yn RhCT.



- Cefnogi twf y sector twristiaeth a hamdden.

# Y Strategaeth a Ffefrir – Faint y byddwn ni'n tyfu?




Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn edrych ar faint y mae angen i RCT dyfu er mwyn adeiladu digon o dai a swyddi ar gyfer y bobl sy'n byw yno.

Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn dweud bod angen:



- Digon o dir i adeiladu 8450 o dai newydd (gan gynnwys cynifer o dai fforddiadwy ag sy'n bosibl).



- 68 hectar o dir i adeiladu ystadau diwydiannol a 266 o swyddi bob blwyddyn.

# Ble y byddwn ni'n tyfu?




Mae'n bwysig sicrhau bod y cartrefi a swyddi newydd yn y lleoedd cywir ar gyfer y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn RhCT.


**Y mathau o ardaloedd yr hoffen ni weld pethau newydd yn cael eu hadeiladu ynddyn nhw yw:**

**Prif Aneddiadau** – Dyma'r trefi mwyaf gyda thrafnidiaeth gyhoeddus dda megis trenau a bysiau. Y gobaith yw mai dyma fydd y prif ardaloedd ar gyfer datblygiadau newydd mawr a buddsoddiadau newydd. Yr ardaloedd yma yw **Aberdâr, Pontypridd a Thonysguboriau, Pont-y-clun a Llantrisant.**

**Aneddiadau Allweddol** – Mae'n rhain yn llai na'r Prif Aneddiadau. Serch hynny, maen nhw'n lleoedd pwysig ar gyfer siopau, swyddi a gweithgareddau cymunedol. Mae'r rhain yn cynnwys **Hirwaun, Aberpennar, Glynrhedynog, Treorci, Tonypandy, Porth, Tonyrefail a Llanharan.**

**Aneddiadau Llai** – Mae'r rhain yn gymunedau llai gyda llai o gyfleusterau er eu bod nhw'n bwysig. Rydyn ni eisiau cadw'r siopau, safleoedd at ddefnydd cymunedol a phethau eraill yn yr ardaloedd yma a'u gwneud nhw'n well. Mae dros 20 o'r aneddiadau yma.

# Ardaloedd gwahanol sydd wedi'u nodi yn y Strategaeth a Ffefrir




Mae'r Strategaeth a Ffefrir yn rhannu RhCT yn ddwy ran oherwydd bod angen dulliau cynllunio gwahanol arnyn nhw ar gyfer y dyfodol.

Y ddwy ardal yw:

**Ardal Strategol Ogleddol**

Mae'r ardal yma'n cynnwys Cwm Rhondda Fawr, Cwm Rhondda Fach a Chymoedd Cynon. Rydyn ni eisiau gwneud y cymunedau yma'n gryfach. Dyma rai ffyrdd o wneud hyn:

- Annog adeiladau newydd ger cyfleusterau trafnidiaeth gyhoeddus presennol megis gorsafoedd trenau a bysiau
- Troi tai gwag yn gartrefi
- Annog datblygiadau twristiaeth.

**Ardal Strategaeth Ddeheuol**

Mae'r ardal yma'n cynnwys Pontypridd, i Ffynnon Taf a Phentre'r Eglwys yn y dwyrain; ac o Donyrefail i ardal Llantrisant a Llanharan yn y gorllewin. Rydyn ni eisiau helpu'r cymunedau yma i dyfu ac adeiladu tai newydd yma. Dyma rai ffyrdd o wneud hyn:

- Annog adeiladau newydd ger Pontypridd
- Troi tai gwag yn gartrefi
- Adeiladu rhagor o dai ar dir addas wrth ofalu am y cefn gwlad pwysicaf.


# Safleoedd Allweddol Posibl

Er mwyn sicrhau bod digon o dir ar gael i adeiladu'r cartrefi a chreu'r swyddi sydd eu hangen ar RCT, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn dangos 4 ardal fawr o dir. Enw'r rhain yw ‘Safleoedd Allweddol’.

- Mae 2 safle allweddol yn y Gogledd.
- Mae 2 safle allweddol yn y De.


Mae'r mapiau ar y tudalennau nesaf yn dangos beth allai ddigwydd ar y 4 safle mawr.

## Safle Allweddol 1 – Pentref Pen-rhys, Tylorstown





Y cynllun yma yw adeiladu 500 o gartrefi newydd, safleoedd at ddefnydd cymunedol ac ysgol. Bydd rhannau o'r tir hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer hamdden a thwristiaeth ac ynni adnewyddadwy.

## Safle Allweddol 2: Tir i'r de o Hirwaun




Y tro diwethaf i'r tir yma gael ei ddefnyddio oedd ar gyfer pwll glo brig ond mae'r gwaith hwnnw wedi dod i ben erbyn hyn. Mae'n bosibl y bydd y safle yma'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflogaeth a thwristiaeth. Bydd rhannau o'r tir yn cael eu cadw ar gyfer byd natur a gallen nhw fod ar gael i bobl eu defnyddio.


## Safle Allweddol 3 – Tir yn Llanilid




Ar y darn yma o dir mae'n bosibl y bydd hyd at 1,500 o dai yn cael eu hadeiladu, ysgol newydd, cyfleusterau cymunedol a swyddi. Bydd

rhannau o'r tir hefyd yn cael eu defnyddio fel man gwyrdd agored a mannau chwarae a byddan nhw'n gofalu am y byd natur pwysig sydd ar y safle.

## Safle Allweddol 4 - Llanilltud Faerdref, Pentre'r Eglwys




Mae'n bosibl y bydd gan y safle yma hyd at 1,000 o gartrefi newydd, ysgol newydd, siopau newydd, cyfleusterau cymunedol a gweithleoedd. Bydd rhannau o'r tir yn cael eu defnyddio fel man gwyrdd agored a mannau chwarae.

## Polisïau Allweddol

Er mwyn ein helpu ni i gyflawni'r hyn rydyn ni eisiau ei wneud, rydyn ni wedi ysgrifennu 9 polisi allweddol. Dyma nhw:



**Newid yn yr Hinsawdd a Charbon** – bydd angen datblygiadau newydd i leihau allyriadau carbon a lliniaru achosion newid yn yr hinsawdd.



**Creu Lleoedd a Chymunedau Cynaliadwy** – hyrwyddo datblygiadau newydd sy'n helpu i greu cymunedau sy'n gynhwysol, cydlynol, diogel ac sy'n cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.



**Rheoli Perygl Llifogydd** – hyrwyddo datblygiadau sy'n gwrthsefyll llifogydd.



**Bioamrywiaeth a'r Amgylchedd Naturiol** – hyrwyddo datblygiadau sy'n cynnal ac yn gwella'r amgylchedd naturiol.



**Seilwaith Gwyrdd a Mannau Agored** – hyrwyddo trefniadau gwarchod, rheoli a gwella mannau gwyrdd, megis parciau a chefn gwlad.



**Tai** – darparu canllawiau ar sut y bydd y targed o ran tai (8,450 o dai) yn cael ei gyflawni.



**Tir Cyflogaeth a'r Economi** – esbonio sut y bydd cyfleoedd o ran twf cyflogaeth a chreu swyddi yn cael eu cefnogi.



**Canol Aneddiadau** – esbonio sut mae modd i'r ardaloedd yma (sef canol Trefi a Phentrefi) ddod yn lleoedd gwell i bobl ymweld â nhw, eu mwynhau, gweithio a byw ynddyn nhw.



**Twristiaeth** – esbonio sut y bydd datblygiadau twristiaeth yn cael eu cefnogi a'u hannog.

## Cymryd rhan

Hoffen ni annog pawb i gymryd rhan ym mhroses y Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig.

Rydyn ni'n gofyn i bawb am eu barn ar y Strategaeth a Ffefrir.



Gall unrhyw un roi eu barn ar y cynigion.




Bydd y fersiwn lawn o'r Strategaeth a Ffefrir ar gael i'w gweld ar ein gwefan:

https://www.rctcbc.gov.uk/CY/Resident/PlanningandBuildingControl/RevisedLocalDevelopmentPlan20222037/PreferredStrategyConsultation.aspx

Mae copi caled o'r Strategaeth a Ffefrir hefyd ar gael i'w weld ym mhob llyfrgell ledled RhCT yn ystod yr oriau agor arferol.

Mae modd i chi hefyd ysgrifennu aton ni i roi'ch barn. E-bostiwch cdll@rctcbc.gov.uk os ydych chi eisiau gofyn am ffurflen i gyflwyno'ch sylwadau.

Os bydd yn well gennych chi anfon sylwadau trwy'r post, defnyddiwch y cyfeiriad isod: Y Garfan Polisi Cynllunio, 2 Llys Cadwyn, Pontypridd, CF37 4TH